# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2237 |
| Committee | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Date | 22/04/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr Stephen Thomas (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Keri Rowson (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth L. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Phil Edwards (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Hayden (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Wayne Hodgins (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Amanda Moore (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tim Sharrem (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Tanya Evans (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Alyson Hoskins (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Richard Crook (Notify)<br>Rhian Hayden (Notify)<br>Michelle Morris (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Emma Bennett (Notify) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4677 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| Item ID | 4678 |
|---|---|
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr S. Thomas (Cadeirydd), G. Collier, G.L. Davies, M. Moore, G. Paulsen a T. Sharrem. |

| Item ID | 4679 |
|---|---|
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| Item ID | 4680 |
|---|---|
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| Item ID | 4694 |
|---|---|
| Item Title | Strategaeth Byw'n Annibynnol yn y 21ain Ganrif – Adroddiad cynnydd blynyddol 2020/21 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a gyflwynwyd i roi trosolwg i Aelodau ar strategaeth 'Byw'n Annibynnol ym Mlaenau Gwent yn y 21ain ganrif'.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion am yr adroddiad a rhoi trosolwg o bob un o'r 8 maes blaenoriaeth fel rhan o ddull gweithredu cynhwysfawr at ddatblygu gwasanaeth.<br><br>**<u>Blaenoriaeth 1 – Gofal hirdymor</u>**<br><br>Gofynnodd Aelod pa feysydd o arfer da y gellid mynd â nhw ymlaen yn dilyn Covid a chyfeiriodd hefyd at y gostyngiad yn y nifer o breswylwyr mewn cartrefi gofal. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod nifer o feysydd arfer da ym mhob un o'r 8 blaenoriaeth. Yn benodol yng nghyswllt cartrefi gofal, maent yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ddatblygu gwell prosesau rheoli haint ac yn mynd â'r hyn a ddysgwyd o hynny i ddatblygu gwasanaeth newydd wrth symud ymlaen, fel bod gan ddarparwyr cartrefi gofal fynediad cadarn a rhwydd i arweinwyr rheoli haint ac yn y blaen. Yng nghyswllt y nifer is o breswylwyr mewn cartrefi gofal, mae'n rhy gynnar dweud os yw hyn oherwydd hyder ac os y byddai'r tueddiad hyn yn newid. Gall pobl fod wedi penderfynu aros yn eu cartrefi eu hunain oherwydd bod y pandemig wedi effeithio'n neilltuol ar gartrefi gofal neu efallai eu bod yn meddwl yn wahanol am eu hanghenion gofal ar gyfer y dyfodol. |

Holodd Aelod am y nifer o farwolaethau cysylltiedig â Covid mewn cartrefi gofal. Atebodd y Swyddog y gellid rhoi'r wybodaeth hon ond gyda nodyn o rybudd, gan y byddai rhai pobl a all fod wedi dal yr haint mewn ysbyty ac nid yn y cartref gofal.

Gyda llai o alw nag o leoedd ar gael mewn rhai cartrefi gofal ar hyn o bryd, holodd Aelod pa effaith y byddai agor cartref gofal newydd yn ei gael ar y ddarpariaeth bresennol yn y dyfodol. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau oedolion fod cartrefi gofal yn cael eu rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac y gallai unrhyw un agor cartref. Roedd y cartref gofal newydd yn Nhredegar wedi agor yn gynnar yn y pandemig ac eisoes wedi datblygu'r ddarpariaeth cyn y pandemig. Esboniodd y gallai rhai o'r preswylwyr ddod o Gaerffili, Cwm Rhwymi a Phowys ac nid Blaenau Gwent yn unig.

Dywedodd Aelod fod yr adroddiad yn dangos fod y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymateb yn gyflym ac yn broffesiynol yn ystod y pandemig, wedi cysylltu gyda nifer o bartneriaid ac wedi parhau i ddarparu gwasanaethau ansawdd uchel sy'n effeithio ar aelodau bregus o gymdeithas. Diolchodd i holl aelodau staff y Gyfarwyddiaeth am eu gwaith da a theimlai fod yr adroddiad yn rhoi sicrwydd i Gynghorwyr a'r cyhoedd a all fod â pherthnasau yn ein gosodiadau gofal. Roedd holl Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn cefnogi'r sylwadau hyn a theimlent fod staff Gwasanaethau Cymdeithasol wedi perfformio'n dda tu hwnt mewn blwyddyn heriol iawn.

Gyda llai o bobl yn mynd i gartrefi gofal, holodd Aelod sut oedd pobl yn ymdopi yn eu cartrefi eu hunain. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol mai un o brif sbardunau strategaeth Byw'n Annibynnol yn y 21ain Ganrif oedd gostwng nifer y bobl sy'n mynd i gartrefi gofal traddodiadol. Bu gostyngiad cyson dros y 15 mlynedd ddiwethaf yn nifer y bobl sydd angen mynd i gartrefi gofal, fodd bynnag mae'r Gwasanaeth yng ngofal cyfran llawer uwch o bobl cymhleth iawn yn y gymuned. Mae gwasanaethau cadarn o fath Ailalluogi a Gofal yn y Cartref yn galluogi pobl i gael eu cefnogi yn y gymuned gyda'r gefnogaeth gywir o'u hamgylch.

**Blaenoriaeth 2 – Gwasanaethau Ailalluogi/Galluogi**

Holodd Aelod am y gwasanaethau cyfeillio a gydlynir gyda'r sector gwirfoddol. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion nad oedd y Gyfarwyddiaeth wedi canolbwyntio ar wasanaethau newydd, fodd bynnag mae gwaith yn mynd rhagddo gyda GAVO mewn rhannau eraill o'r Cyngor i gynyddu'r gwasanaeth cyfeillio a siopa. Mae nifer o ffrydiau gwaith yn edrych ar adferiad y Cyngor wrth symud ymlaen ac mae un yn ymwneud a'r gymuned, ac mae darparu gwasanaethau cyfeillio a gwirfoddoli yn bendant iawn yn rhan o'r gwaith hwnnw.

Cododd Aelod bryderon am bobl gyda chyflyrau iechyd sylfaenol a fu'n gwarchod am flwyddyn ac oedd braidd yn ofnus am fynd yn ôl allan i'r gymuned. Holodd os y gwnaed unrhyw waith gyda'r grŵp Strôc neu'r grŵp

Dementia lleol i holi os oedd yn bosibl iddynt gael pobl yn ôl yn ddiogel i'r gymuned ac ailgysylltu gyda'u grŵp. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod nifer o grwpiau wedi ailddechrau, a rhai yn dal i fod yn rhithiol. Mae Cymru yn dal i fod yn Haen 4 ac mae nifer o gyrff Trydydd Sector yn disgwyl am gyhoeddiad nesaf Llywodraeth Cymru i ddechrau mwy o grwpiau wyneb i wyneb. Mae'r Cysylltwyr Cymunedol yn siarad yn gyson gyda'r darparwyr hyn a byddent yn ailddechrau ar waith grŵp cyn gynted ag mae'n ddiogel iddynt wneud hynny gyda chyfraddau haint yn gostwng a'r cyhoeddiad am y lefel Haen nesaf. Pan fydd yn hysbys, byddai'r Swyddog yn cylchredeg yr wybodaeth ar pryd y byddai'r grwpiau hyn yn ailddechrau cyfarfodydd wyneb-i-wyneb gydag Aelodau er gwybodaeth.

Yng nghyswllt grwpiau rhithiol, holodd Aelod os y byddai dull gweithredu cyfunol yn parhau yn y dyfodol gan efallai y byddai rhai pobl yn ei chael yn rhwyddach cael mynediad i grwpiau ar-lein oherwydd eu problemau iechyd. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion eu bod yn dymuno symud tuag at ddull gweithredu cyfunol ac wedi bod yn gweithio gyda Pobl yn Gyntaf, grŵp Trydydd Sector a dderbyniodd gyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dyfeisiau digidol sy'n cefnogi pobl gydag anableddau dysgu. Fel rhan o'r ffrwd gwaith ataliol, roedd staff Gwasanaethau Cymdeithasol wedi helpu i osod y dyfeisiau yng nghartrefi pobl.

Holodd Aelod am glybiau cinio a phryd y gallent ail-agor. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y byddai hynny ar sail achos unigol ac y byddai angen i'r sawl sy'n gweithredu'r clwb cinio wirio canllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru a rhoi asesiad risg ar waith i sicrhau y gallant ail-agor yn ddiogel. Bu'r Tîm Argyfyngau Sifil Posibl yn cefnogi nifer o grwpiau i sicrhau y caiff y protocolau perthnasol eu rhoi ar waith. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymunedol nad yw'r rheoliadau ar hyn o bryd yn caniatáu i grwpiau gwrdd dan do a disgwylir cyhoeddiad Llywodraeth Cymru. Unwaith y cafwyd hynny, byddai'r Tîm Argyfyngau Sifil Posibl yn cefnogi grwpiau gyda'u hasesiadau risg i'w galluogi i ail-agor a gweithredu eto mewn modd diogel.

**Blaenoriaeth 3 – Cyfleoedd Dydd/Opsiynau Cymunedol**

Yng nghyswllt Opsiynau Cymunedol, holodd Aelod os gallai model o ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol gynnwys rhaglen atal unigrwydd. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion wrth Aelodau fod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r pump awdurdod lleol yng Ngwent ar sut olwg allai fod ar y modelau ar draws Gwent gyfan. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn hwyluso gweithdy ar Teams ar y mater hwn yr wythnos nesaf.

**Blaenoriaeth 4 – Technoleg Gynorthwyol**

Ni chododd Aelodau unrhyw faterion yng nghyswllt Technoleg Gynorthwyol.

**Blaenoriaeth 5 – Taliadau Uniongyrchol**

Ni chododd Aelodau unrhyw faterion yng nghyswllt Taliadau Uniongyrchol.

**Blaenoriaeth 6 - Llety**

Holodd Aelod os oes unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi'r farn fod pobl sy'n symud i fyngalos pobl hŷn yn arbed ar gostau ariannol anghenion gofal y dyfodol ac os y gellid defnyddio'r dystiolaeth hon yn y Strategaeth Tai wrth symud ymlaen. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod nifer o ddarparwyr tai wedi cynnal dadansoddiad anghenion ar draws Gwent sy'n dangos manteision byw mewn llety addas ar gyfer y dyfodol. Dan strwythur y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, roedd y Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol wedi gwneud gwaith ar draws ardal Gwent parthed anghenion tai pobl hŷn yn y dyfodol a daeth nifer o adroddiadau yn ôl i Adrannau Tai ac Iechyd am y modelau a ffafrir ar gyfer tai yn y dyfodol.

Holodd Aelod pa ddylanwad sydd gan yr Awdurdod ar ddarparwyr tai i adeiladu llety addas ar gyfer y dyfodol ar gyfer pobl hŷn o fewn eu datblygiadau. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y Rheolwr Tîm Cefnogi Pobl yn cymryd rhan yn yr holl drafodaethau hynny ac yn hyrwyddo anghenion y dyfodol ar gyfer yr henoed. Mae'n gweithio'n agos gyda'r Adran Cynllunio yng nghyswllt y Cynllun Datblygu Lleol a byddai'n cysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol i gael eu mewnbwn pan gaiff unrhyw ddatblygiad ei gynnig.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am effaith Covid ar fyw cymunol mewn safleoedd tai, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion nad oedd wedi cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau am ddyluniad safleoedd tai, ond rhoddodd enghraifft o'r hyn a ddysgwyd o Covid megis cael mynedfa ac allanfa ar wahân yn y datblygiad a'r un fath ar gyfer fferyllfeydd sy'n gysylltiedig â chanolfannau llesiant i sicrhau fod y datblygiadau hyn yn yn addas pe byddai pandemig arall y y dyfodol. Gobeithiai y byddai'r dyluniadau hyn a'r gwersi o Covid yn cael eu cynnwys ym mhrosesau dylunio y dyfodol.

**Blaenoriaeth 7 - Gofalwyr**

Yng nghyswllt y nifer o ofalwyr di-dâl a ddynodwyd ym Mlaenau Gwent, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y caiff y ffigurau hynny eu cynnwys yn Strategaeth Gofalwyr Gwent. Fodd bynnag, mae nifer o ofalwyr nad ydynt yn uniaethu fel gofalwyr ac mae angen i'r gwasanaeth gyrraedd y gofalwyr hynny, yn oedolion a gofalwyr ifanc, i roi cefnogaeth iddynt. Rhan o'r rhesymeg am gynnal y cynllun Ymgysylltu â Gofalwyr gyda meddygon teulu oedd ymchwilio a dynodi'r gofalwyr di-dâl hynny nad ydynt yn uniaethu fel gofalwyr.

Yng nghyswllt dynodi gofalwyr ifanc mewn ysgolion, byddai hyn yn dod o fewn yr Adran Gwasanaethau Plant sydd â swyddog penodol cyfrifol am ofalwyr ifanc a fyddai'n cysylltu gyda phob ysgol yn y fwrdeistref. Fel rhan o broses Estyn mae'n ddyletswydd ar ysgolion i ddynodi eu gofalwyr ifanc i roi cefnogaeth iddynt. Mae Bwrdd Gofalwyr o fewn y Bwrdd Partneriaeth

| | |
|---|---|
| | Rhanbarthol sydd â chynllun gweithredu penodol ar gyfer pob partner ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector oedd yn ymwneud â chefnogi gofalwyr ifanc a gofalwyr ifanc mewn ysgolion. Roedd nifer o raglenni ysgol yn gweithredu tebyg i'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr a roddodd sgyrsiau i ddosbarthiadau cyfan a hefyd yn rhoi cefnogaeth i ofalwyr unigol.<br><br>Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol fod Prosiect Ysgolion Gofalwyr Ifanc De Ddwyrain Cymru yn ceisio cael ysgolion i ddynodi gofalwyr ifanc mewn ysgolion a rhoi'r gefnogaeth briodol iddynt. Caiff y rhaglen hon ei chynnal ar draws Gwent ac mae nifer o ysgolion Blaenau Gwent eisoes yn cymryd rhan yn y rhaglen. Mewn ymgais i hyrwyddo'r cynllun ymhellach, gan fod Aelodau hefyd yn llywodraethwyr ysgolion dywedodd y gallent gydlynu gyda phenaethiaid eu hysgolion i ystyried dilyn cynllun a gaiff ei redeg gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru.<br><br>**<u>Blaenoriaeth 8 – Gofal yn y Cartref</u>**<br><br>Ni chododd Aelodau unrhyw faterion yng nghyswllt Gofal yn y Cartref.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r dystiolaeth a roddwyd i gefnogi cynnydd yn y 8 maes blaenoriaeth, er o fewn cyd-destun cyfnod 12-mis unigryw pandemig COVID 2020/21 ac i'r Gyfarwyddiaeth barhau i roi diweddariad cynnydd ar sail flynyddol i'r Pwyllgor Craffu fel yr amlinellir yn yr adroddiad.<br><br>Gadawodd y Cynghorwyr Derrick Bevan a Bob Summers y cyfarfod ar y pwynt hwn. |

| Item ID | 4695 |
|---|---|
| Item Title | Diweddariad ar y Bartneriaeth Ranbarthol |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynwyd i ddiweddaru Aelodau ar y gwaith a'r penderfyniadau a gymerwyd dros y 5 mis diwethaf gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol am yr adroddiad a rhoddodd ddiweddariad manwl yng nghyswllt y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cefnogi penderfyniadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. |

| Item ID | 4696 |
|---|---|
| Item Title | Gwasanaethau Cymorth Gartref – Tendr a Pherfformiad Marchnad ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd gan ddarparwyr annibynnol |

| | |
|---|---|
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynwyd i roi gwybodaeth ar gontractau a chomisiynu yng nghyswllt gofal a chymorth dinasyddion Blaenau Gwent o fewn eu cartrefi.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Holodd Aelod sut y caiff ansawdd a safon gofal gan y sector preifat ei fonitro. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Chomisiynu y bu hyn yn her ar hyd y pandemig, fodd bynnag gellid gael rhybudd cynnar drwy nyrsys ardal, galwadau ffôn a'r gwasanaeth monitro galwadau a oedd yn system electronig lle gallai gofalwyr fewngofnodi i'r system, lle gallai hyd galwadau gael ei fonitro, os oes unrhyw gwynion neu broblemau . Mae hyn yn llif cyfathrebu dwy-ffordd, ddwywaith yr wythnos gyda darparwyr i sicrhau y caiff y gwasanaeth ei hysbysu am unrhyw bryderon ac yn y blaen ac mae gwybodaeth monitro i ddilysu rhai o'r galwadau hyn. Mae hefyd gopïau o adroddiadau gan ddarparwyr a'u gwiriadau sicrwydd ansawdd eu hunain. Byddid yn ymchwilio unrhyw faterion a adroddir tebyg i ddiffyg cydymffurfiaeth PPE neu ddau ofalwr yn teithio gyda'i gilydd yn nhu blaen car a'u hysbysu i'r darparydd gwasanaeth.<br><br>Yng nghyswllt hapwiriadau, byddai'r RI yn cynnal hapwiriadau ar eu staff eu hunain ac yn paratoi adroddiadau dyddiol. Os oes nifer o ofalwyr yn torri rheoliadau mewn ardal neilltuol, gallai hynny arwain at ymchwiliad ac o bosibl weithredu disgyblaeth. Cafodd llawer o wybodaeth ei lledaenu i asiantaethau gofal yn y cartref, gan wneud yn siŵr eu bod yn dilyn protocolau. Roedd gweithio'n agos gyda chydweithwyr Iechyd yr Amgylchedd wedi rhoi ffynhonnell dda o wybodaeth i'r Tîm Comisiynu fedru ymateb i broblemau ar gam cynnar.<br><br>Cododd Aelod bryderon am drosiant uchel y staff ymysg rhai darparwyr annibynnol, gyda rhai cleientiaid â gofalwyr newydd yn gyson. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod parhad gofal yn hanfodol a'i fod yn un o'r rhesymau pam eu bod wedi cyflwyno tendr newydd a heb gomisiynu pecynnau presennol gan fod pryderon am recriwtio a thwf. Mae angen i ddarparwyr ddangos y medrent recriwtio gweithlu gan ei bod yn bwysig fod gan ddefnyddwyr gwasanaeth barhad. Yn y gorffennol bu pryderon am drosiant uchel o staff ymhlith darparwyr a gwnaed gwelliannau ar ôl ymgynghori ac ymgysylltu ac fel rhan o'r trefniadau contract newydd mae angen i ddarparwyr gadarnhau y gallent recriwtio cronfa o ofalwyr neilltuol.<br><br>Teimlai'r Ardal y dylai'r maes hwn gael ei reoleiddio gan Lywodraeth Cymru ac y dylid gwneud swydd gofalwr yn fwy deniadol gyda chynnydd mewn cyflog ar gyfer eu gwaith pwysig yn y gymuned.<br><br>Holodd Aelod os y dylid ystyried dod â'r gwasanaeth yn ôl i fod yn un mewnol. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y cyhoeddwyd Papur Gwyn newydd yng nghyswllt gwaith cymdeithasol a bod cynaliadwyedd yn sefyllfa'r farchnad yn rhan o'r gwaith hwnnw. Teimlai ei |

| | |
|---|---|
| | bod yn fanteisiol cael economi cymysg gyda gwasanaethau mewnol a hefyd allanol i hyrwyddo amrywiaeth ar draws y sector. Byddai cost dod â'r gwasanaeth hwn yn fewnol, ar y lefel hon, yn uchel tu hwnt a byddi angen buddsoddiad sylweddol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol bod darparydd allanol oedd yn darparu 23% o ddarpariaeth Gofal Cartref wedi mynd i ddwylo gweinyddwyr 18 mis yn ôl ac y bu'n rhaid edrych am ddarparydd newydd i gyflwyno'r gofal hwnnw. Rhoddwyd ystyriaeth i ddod â'r gwasanaeth yn fewnol yr adeg honno, fodd bynnag byddai'r gost yn £2m ychwanegol at y swm a dalwyd eisoes i'r darparydd, a byddai hyn yn gost barhaus. Teimlai fod angen i farchnad gymysg fod yn ei lle i gael y cydbwysedd cywir rhwng darparwyr mewnol ac allanol. Gwnaed gwaith i geisio ehangu'r niferoedd hynny o ddarparwyr i sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol fel na fyddai unrhyw un ddarparydd yn gyfrifol am gyflwyno swm enfawr o ddarpariaeth gofal.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef derbyn yr adroddiad fel y'i darparwyd. |